I became his deputy in 2000 and learned much from him on how to deal with people. Other Members have referred to the fact that he was always courteous and humorous; I certainly saw that when I went to meetings with him. I saw the effect that he could have on the public and on politicians by being courteous and by using humour where that was appropriate. If there is one criticism that can be made of him, it is perhaps that he was too even-handed for some of us on this bench—but that was Peter. When people approached him, he tried to do his best for them, no matter what their political background.

Cyfarfûm â Peter am y tro cyntaf yn 1995 pan oeddem ein dau yn ymgeisio am enwebiad y Blaid Lafur yn etholaeth seneddol Brycheiniog a Maesyfed yn yr etholiad cyffredinol dilynol. Cyfarfuom yn Ystradgynlais, lle'r oedd dwy gangen yn cyfarfod i ddewis eu hymgeisydd, ac ar ddiwedd y noson yr oeddem ein dau'n gyfartal. Sylweddolais bryd hynny fod Peter yn gymeriad arbennig o gynnes, gyda'i hapusrwydd o gael ei ddewis gan un gangen yn llawn cymaint â'r llongyfarchion a dderbyniais ganddo ar ôl cael fy newis gan y llall. Cofiaf hynny'n dda iawn.

Yna cyfarfûm ag ef sawl tro yn ystod ymgyrch y refferendwm yn 1997. Bu'n ymladd ymgyrch gref ym Mlaenau Gwent o dan amgylchiadau anodd yn lleol. Sicrhaodd y gwaith a wnaeth yno fuddugoliaeth gyfforddus i'r ymgyrch 'Ie dros Gymru' yno, a sicrhau ein bod ni yma heddiw. Ni chredaf y byddem yma heddiw heb ei waith ym Mlaenau Gwent dros wythnosau a misoedd ymgyrch y refferendwm. Cofiaf ei weld yn sefyll ar y llwyfan pan gyhoeddwyd y canlyniad ym Mlaenau Gwent; yr oedd cynifer o bobl yn aros i weld beth fyddai'r canlyniad yno. Yr oedd yn ddatganolwr pybyr ac yn cefnogi creu'r sefydliad hwn a'i ddatblygiad dros y blynyddoedd. Mae'n deg dweud ei fod, oherwydd yr hyn a wnaeth dros yr ymgyrch 'Ie dros Gymru', yn ymuno â'r rhestr o bobl sy'n gyfrifol am sicrhau ein bod wedi gweld geni ein democratiaeth newydd yma.

Deuthum yn ddirprwy iddo yn 2000 a dysgais lawer ganddo am sut i ddelio â phobl. Mae Aelodau eraill wedi cyfeirio at y ffaith ei fod bob amser yn gwrtais ac yn llawn hiwmor; yn sicr gwelais hynny wrth fynd i gyfarfodydd gydag ef. Gwelais yr effaith y gallai ei chael ar y cyhoedd ac ar wleidyddion drwy fod yn gwrtais a thrwy ddefnyddio hiwmor pan fyddai hynny'n briodol. Os gellir ei feirmiadu am un peth, efallai mai ei arfer o fod yn rhy ddiuedd o safbwynt rhai ohonom ar y fainc hon fyddai hynny—ond dyna sut un oedd Peter. Pan ddeuai pobl ato, ceisiai wneud ei orau drostynt, beth bynnag fyddai eu cefndir gwleidyddol.

Regardless of the political debates that surrounded Peter's decision last year, he maintained good relations with many Assembly Members on this side of the Chamber. He was a regular source of conversation in the Members' tea room until his illness finally got the better of him. I remember the last time that I spoke to him, which was some two months ago outside the tea room. He seemed well. We had a long chat and it was difficult to understand that he was ill at all, such was the cruel vagary of his illness. Many Members have referred to the fact that one of his last acts was to attend Anne Marek's funeral. Despite the great difficulty that that would have caused him, he was determined to go.

Peter certainly did not lack courage. He represented the constituents of Blaenau Gwent here and in Parliament at the same time, and that is no easy job for someone who is in the best of health, let alone someone who is fighting a serious illness. The fact that he managed to do it for so long is surely a tribute to the support of his family and of all those around him. He will be missed by them. It is also true to say that, in this place, he will leave a gap that will never quite be filled.

Glyn Davies: Thank you, Llywydd, for the opportunity to make a few comments today. I wonder what Peter would have thought of us all paying such tributes to him in the Chamber today, particularly me, as one of the Tories whom he so often launched into. I think that he would have very much enjoyed and appreciated listening to what we are saying about him, and I think that it would have made him chuckle in the way that many of us remember.

When someone dies, the biggest loss is felt within the family and, along with everyone else, I extend my sympathy to Peter's family. I did not know Peter Law, the family man; I knew Peter Law, the politician, who became Peter Law, the good and trusted friend and political opponent with whom it was possible to share confidences.

Peter knew how to do politics. I think that he

Waeth beth oedd y dadleuon gwleidyddol a oedd ynghlwm â phenderfyniad Peter y llynedd, parhaodd ar delerau da gyda llawer o Aelodau'r Cynulliad ar yr ochr hon i'r Siambr. Yr oedd yn sgwrsiwr cyson yn ystafell de'r Aelodau hyd nes i'w salwch ei drechu yn y diwedd. Cofiaf y tro olaf imi siarad ag ef, sef tua deufis yn ôl y tu allan i'r ystafell de. Yr oedd yn ymddangos yn iach. Cawsom sgwrs hir ac yr oedd yn anodd deall ei fod yn wael o gwbl, gan mai peth felly yw mympwy creulon ei salwch. Mae llawer o Aelodau wedi cyfeirio at y ffaith mai un o'i weithredoedd olaf oedd mynychu angladd Anne Marek. Er gwaethaf yr anawsterau mawr y byddai hynny wedi eu peri iddo, yr oedd yn benderfynol o fynd.

Yn sicr nid oedd Peter yn brin o ddewrder. Cynrychiolodd etholwyr Blaenau Gwent yma ac yn San Steffan ar yr un pryd, ac nid yw hynny'n beth hawdd i rywun holliach, heb sôn am rywun sy'n brwydro yn erbyn salwch difrifol. Mae'r ffaith ei fod wedi llwyddo i wneud hynny cyhyd yn brawf o gefnogaeth ei deulu a phawb o'i gwmpas. Bydd pob un ohonynt yn gweld ei eisiau. Mae'n wir dweud hefyd y bydd yn gadael bwlch ar ei ôl yn y lle hwn na fydd neb arall yn gallu ei lenwi'n llwyr.

Glyn Davies: Diolch, Lywydd, am y cyfle i gael gwneud ychydig o sylwadau heddiw. Tybed beth fyddai Peter yn ei feddwl ohonom am dalu'r fath deyrngedau iddo yn y Siambr heddiw, yn enwedig fi, fel un o'r Torïaid yr oedd yn ymosod arnynt mor aml? Yr wyf yn siŵr y byddai wedi mwynhau a gwerthfawrogi gwrando ar yr hyn yr ydym yn ei ddweud amdano, ac yr wyf yn siŵr y byddai wedi gwneud iddo chwerthin yn y dull y mae llawer ohonom yn ei gofio.

Pan fydd rhywun yn marw, y teulu sy'n teimlo'r golled fwyaf ac, ynghyd â phawb arall, estynnaf fy nghydymdeimlad i deulu Peter. Nid oeddwn yn adnabod Peter Law, y penteulu; Peter Law, y gwleidydd, yr oeddwn i'n ei adnabod, a ddaeth yn Peter Law, y cyfaill da a chywir a gwrthwynebydd gwleidyddol y gellid rhannu cyfrinachau ag ef.

Gwyddai Peter sut i ymhel â gwleidyddiaeth.

would want to be remembered as a tough, battling and combative politician, which he was. I had quite a few real tangles with Peter. He regularly dismissed me as 'Farmer Poll-Tax', whenever I started to rant about the council tax, which was fairly often. I remember him once even comparing me to one of the Dingles, and I must admit that I was pretty outraged by that. I particularly remember the redoubtable Chair of the Local Government and Public Services Committee, Ann Jones, almost having to keep us apart at one meeting, when Peter was defending Sue Essex and I was not.

However, it was not possible to hold any of this against Peter, because you knew that he was arguing from a position of integrity and standing up for what he believed. You could also see that there was no malice in the 'jousting', as Carwyn put it; the twinkle never left his eye. Despite the fact that you were under attack, you were almost tempted to start smiling. After a rumbustious debate in the Chamber, there was nothing that Peter liked more than to wander off to the tea room and have a cup of tea, a chat and a chuckle about the debate that had just taken place.

Peter Law was a top politician and a really top man. It is hard to believe that Peter will no longer be bustling into the tea room after Plenary saying, 'How are you, old friend?', which was his usual introductory line. Today is my chance to say publicly, 'Goodbye, old friend'.

Irene James: I would like to pay tribute to Peter on behalf of me and my family. Peter was very kind and sincere, and was a true gentleman. He was always generous with his time and support. He also had a keen sense of humour. Today, my thoughts are with Trish and his family.

Peter was helpful to me when I was a new Member. I remember the times I spent with Peter through our mutual dread of computers. Peter would ask me, 'How do I print this?', and I would throw my hands up and say, 'I really do not know'. However, somehow or other we managed. We supported each other

Credaf yr hoffai gael ei gofio fel gwleidydd gwydn, ymladdgar ac ymrysongar, a dyna ydoedd. Cefais sawl ymrafael go iawn â Peter. Byddai'n fy ngwawdio'n gyson fel 'Ffermwr Treth y Pen', bob tro y byddwn yn dechrau pregethu am y dreth gyngor, rhywbeth a byddwn yn ei wneud yn weddol aml. Cofiaf iddo unwaith fy nghymharu ag un o'r Dingles hyd yn oed, a rhaid cyfaddef bod hynny wedi fy ngwylltio. Cofiaf yn arbennig am Gadeirydd nerthol y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, Ann Jones, yn gorfod ein gwahanu bron yn ystod un cyfarfod, pan oedd Peter yn amddiffyn Sue Essex a minnau'n gwneud y gwrthwyneb.

Fodd bynnag, nid oedd modd edliw dim o hyn i Peter, gan eich bod yn gwybod ei fod yn credu'n gydwobodol yn ei ddadleuon ac yn sefyll dros ei ddaliadau. Gallech weld hefyd nad oedd dim malais yn yr 'ymrafael', chwedl Carwyn; byddai ei lygaid yn pefrio drwy'r cyfan. Er ei fod yn ymosod arnoch, yr oedd yn demtasiwn bron ichi ddechrau gwenu. Ar ôl dadl danllyd yn y Siambr, byddai Peter wrth ei fodd o gael mynd i'r ystafell de a chael cwpanaid o de, a sgwrs a chwerthin am y ddadl a oedd newydd orffen.

Yr oedd Peter Law yn wleidydd gwych ac yn ddyn gwirioneddol wych. Mae'n anodd credu na fydd Peter mwyach yn ymlwybro i'r ystafell de ar ôl y Cyfarfod Llawn ac yn dweud, 'Sut wyt ti, yr hen gyfaill?', sef ei gyfarchiad arferol. Dyma fy nghyfle heddiw i ddweud yn gyhoeddus, 'Ffarwél, hen gyfaill'.

Irene James: Hoffwn dalu teyrnged i Peter ar fy rhan fy hun ac ar ran fy nheulu. Yr oedd Peter yn garedig ac yn ddiffuant iawn, ac yn ŵr bonheddig o'r iawn ryw. Yr oedd bob amser yn hael gyda'i amser a'i gefnogaeth. Yr oedd ganddo hefyd synnwyr digrifwch arbennig. Heddiw, yr wyf yn meddwl am Trish a'i deulu.

Bu Peter yn garedig wrthyf pan oeddwn yn Aelod newydd. Cofiaf am yr amser a dreuliais gyda Peter oherwydd bod arnom ein dau ofn cyfrifiaduron. Byddai Peter yn gofyn imi, 'Sut y mae argraffu hwn?', a byddwn innau'n codi fy mreichiau gan ddweud, 'Wir, does gennyf ddim syniad'. Ond rywsut,

in that respect and got through it. I also remember what Peter said to me when I was a new Member. He said, 'Just remember that the people of your constituency voted for you to represent them'. That is something that I have always remembered, and I know without a doubt that Peter always remembered that too, because his first consideration was always the people of Blaenau Gwent. I would like to say, 'Thank you, Peter', because you worked with me and helped me in lots of ways.

Rosemary Butler: Thank you, Presiding Officer, for allowing me to pay my tribute to Peter. I probably knew Peter longer than anyone else here, because I was the second-youngest councillor in Wales when Peter was the youngest. I worked with him on a range of things—the Gwent district councillors association among others. The term 'old friend', which has just been mentioned, used to drive the older councillors mad, because this young 22-year-old used to address very senior leaders as 'old friend' and it did not go down particularly well.

Many people have talked about Peter, the statesman, and I would like to talk about the Peter that I knew. He was great fun, and had a wicked sense of humour. Whatever I was involved in with local government, Peter had been there before. The service that he gave—from his involvement with health boards to many others right across the board—was phenomenal. Peter could be deliciously pompous when he wished to be. I remember when I was a member of an evaluation panel of which Peter was the chair. We had what seemed to me to be a straightforward case, but the chairman suddenly decided that there was a serious technical issue that we had to withdraw to consider. The clerk looked at me and I looked at the clerk, and we duly got up and went out. Peter told us, 'I am in terrible trouble; Trish is about to give birth and I was supposed to buy nappies, but I forgot'. I was then delegated to Boots in Chepstow to buy the necessary items and, upon my return, it was deemed that we had discussed the serious issue and that it had been resolved. He was just superb.

rywfodd, llwyddasom i ymdopi yn y diwedd. Yr oeddem yn cefnogi ein gilydd felly ac yn llwyddo yn y diwedd. Cofiaf hefyd yr hyn a ddywedodd Peter wrthyf pan oeddwn yn Aelod newydd. Meddai, 'Cofiwch fod pobl eich etholaeth wedi pleidleisio drosoch er mwyn i chi eu cynrychioli'. Mae hynny'n rhywbeth yr wyf yn ei gofio byth, a gwn, heb ddim amheuaeth, fod Peter yn ei gofio bob amser hefyd, oherwydd pobl Blaenau Gwent fyddai ei ystyriaeth gyntaf bob amser. Hoffwn ddweud, 'Diolch, Peter', gan eich bod wedi gweithio gyda mi a'm cynorthwyo mewn llawer o ffyrdd.

Rosemary Butler: Diolch, Lywydd, am ganiatáu imi dalu fy nheyrnged i Peter. Mae'n debyg fy mod wedi adnabod Peter yn hwy na neb arall yma, oherwydd a minnau'n gynghorydd ieuengaf ond un yng Nghymru ar un adeg, Peter oedd yr ieuengaf. Bûm yn gweithio gydag ef ar bob math o bethau—cymdeithas cynghorwyr dosbarth Gwent ymhlith pethau eraill. Yr oedd y geiriau 'hen gyfaill', sydd newydd gael eu defnyddio, yn arfer gyrru'r cynghorwyr hyn yn benwan, gan fod y gŵr ifanc 22 oed hwn yn cyfarch yr arweinwyr hyn fel 'hen gyfaill', ac nid oeddent yn hidio am hynny o gwbl.

Mae llawer o bobl wedi sôn am Peter, y gwleidydd, a hoffwn sôn am y Peter yr oeddwn i'n ei adnabod. Yr oedd yn llawn hwyl, ac yr oedd ganddo synnwyr digrifwch direidus. Beth bynnag y byddwn yn ei wneud ym maes llywodraeth leol, yr oedd Peter wedi ei wneud o'm blaen. Yr oedd y gwasanaeth a roddodd—o'i gysylltiad gyda byrddau iechyd i lawer o gyrff eraill ym mhob maes—yn anhygoel. Gallai Peter fod yn hyfryd o rwysgfawr pan fynnai fod. Cofiaf fod yn aelod o banel gwerthuso a oedd yn cael ei gadeirio gan Peter. Yr oedd achos ymddangosiadol syml gerbron y panel, ond yn sydyn penderfynodd y cadeirydd fod mater technegol difrifol wedi codi ac y byddai'n rhaid inni ymneilltuo i'w ystyried. Edrychodd y clerwr arnaf ac edrychais innau ar y clerwr, ac yna codasom a gadael yr ystafell. Meddai Peter wrthym, 'Yr wyf mewn trybini mawr; mae Trish ar fin rhoi genedigaeith ac yr oeddwn i fod i brynu cewynnau, ond fe anghofiais'. Yna dirprwywyd y dasg i mi o fynd i Boots yng Nghas-gwent i brynu'r eitemau angenrheidiol ac, ar ôl imi

ddychwelyd, penderfynwyd ein bod wedi trafod y mater difrifol dan sylw a bod popeth wedi'i ddatrys. Yr oedd yn wych.

Peter liked to do things well. When he was the mayor of Blaenau Gwent, my goodness, he did things well—you will know what I mean if you have ever been a guest at the mayor's parlour in Blaenau Gwent. You did not just have a piece of fish; you had a whole fish. You did not just have a birthday cake; you had a birthday cake with candles. We even had flambéed coffee once, which you should try if you have not already. Peter had been somewhere where he had had flambéed coffee, and so he tried to make it, but of course it went wrong. Instead of having hot coffee, we had coffee with flames coming out of it. Peter was just wonderful.

Byddai Peter yn hoffi gwneud pethau â graen. Pan oedd yn faer Blaenau Gwent, yn wir i chi, gwnaeth bethau â graen—byddwch yn gwybod yr hyn sydd gennyf mewn golwg os buoch yn westai ym mharlwr y maer ym Mlaenau Gwent erioed. Ni wnâi tamaid o bysgodyn y tro; caech bysgodyn cyfan. Ni wnâi cacen ben-blwydd y tro; caech gacen ben-blwydd gyda chanhwyllau arni. Cawsom goffi *flambé* unwaith, rhywbeth y dylech ei brofi os nad ydych wedi gwneud eisoes. Yr oedd Peter wedi bod yn rhywle ac wedi cael coffi *flambé*, felly rhoddodd gynnig ar wneud peth, ond aeth pethau o chwith, wrth gwrs. Yn hytrach na chael coffi poeth, cawsom goffi gyda fflamau'n dod ohono. Yr oedd Peter yn w'r rhyfeddol.

2.40 p.m.

There has been talk of the Ebbw Vale railway line, and Peter had long been an advocate of that. When the Garden Festival of Wales went to Ebbw Vale, he thought that that was the opportunity to get that line reopened. All the councillors came together to try to persuade British Rail to reopen it. British Rail said that it was prepared to do so if the council provided the railway stock, which meant that it had to buy the train and the carriages. Peter's comment was that with what they could afford in Blaenau Gwent, they would not even get the trolley at the back of the train. Even then, he was looking out for the people of Blaenau Gwent. As was said, he was Mr Blaenau Gwent. He was an amazing man, and he could empathise with his fellow man. When I write a letter, I tend to type it and it is usually around a page long. When Peter wrote a letter, it was two or three pages long and always hand-written. Peter was a master of writing to people and of getting to the core of what they felt. He had a true empathy with his fellow man, and there will never be another like him.

Bu sôn am reilffordd Glynebwy, ac yr oedd Peter wedi bod o'i phlaid ers amser maith. Pan ddaeth Gŵyl Erddi Cymru i Lynebwy, credai y byddai hynny'n gyfle i ailagor y lein. Daeth y cynghorwyr i gyd at ei gilydd i geisio perswadio Rheilffyrdd Prydain i'w hailagor. Dywedodd Rheilffyrdd Prydain y byddai'n barod i wneud hynny pe bai'r cyngor yn darparu'r stoc, a olygai y byddai'n rhaid iddo brynu'r trê'n a'r cerbydau. Sylw Peter oedd na fyddai'r hyn y gallent ei fforddio ym Mlaenau Gwent yn talu am y troli yng nghefn y trê'n hyd yn oed. Hyd yn oed bryd hynny yr oedd yn gofalu am fuddiannau pobl Blaenau Gwent. Fel y dywedwyd amdano, ef oedd Mr Blaenau Gwent. Yr oedd yn w'r rhyfeddol, a gallai gydymdeimlo â'i gyd-ddyn. Pan fyddaf yn ysgrifennu llythyr, yr wyf yn dueddol o'i deipio ac fel arfer bydd tua thudalen o hyd. Pan fyddai Peter yn ysgrifennu llythyr, yr oedd yn ddwy neu dair tudalen o hyd ac wedi ei ysgrifennu â llaw bob amser. Yr oedd Peter yn feistr ar ysgrifennu at bobl a mynd at galon yr hyn yr oeddent yn ei deimlo. Yr oedd yn gallu cydymdeimlo o'r galon â'i gyd-ddyn, ac ni fydd neb tebyg iddo eto.

He was so proud of being a Minister in the first Assembly. The only problem was that he felt that his office was not taken seriously

Yr oedd mor falch o gael bod yn Weinidog yn y Cynulliad cyntaf. Yr unig broblem oedd ei fod yn teimlo nad oedd ei swydd yn cael ei

because he had only a box as an office. He did not have a serious Minister's office. He drove Alun Michael and the officials mad because he would hold a meeting, but there would always be too many people to fit into his room, which meant that others had to move out. He never had enough chairs, so he, the Minister, would personally go around other offices to borrow chairs. One day, he turned up with a deck chair because there were not enough chairs. I am pleased to say that the Ministers here now have decent offices, of which Peter would have been particularly proud.

There will never be another Mr Blaenau Gwent. I am sure that there will never be another father, grandfather and husband like Peter. I give my deepest sympathies to Trish, and I hope that they have such wonderful memories that the loss of him will not be too difficult to bear.

Denise Idris Jones: Diolch, Lywydd, am adael i mi ddweud gair neu ddau y prynhawn yma.

I would very much like to pay my respects to Peter and offer my condolences to his wife and family. I knew Peter for a short time through our mutual involvement working together with the Communication Workers Union. I know how highly its members regarded and respected him as a politician, and I would very much like to pass on their respects and condolences.

Leighton Andrews: I will say a few words about Peter Law's role in bringing the Assembly into being. In 1997, when the 'Yes for Wales' campaign was taking firm shape, one of our most prominent opponents was the then Member of Parliament for Blaenau Gwent. However, there was a group of people in Blaenau Gwent who believed in the case for devolution. When the 'Yes for Wales' campaign held its conference in July 1997, a number of those people spoke and were cheered to the rafters. The leader of the Blaenau Gwent 'Yes' campaign was, of course, Peter Law, and I first met him during

chymryd o ddifrif oherwydd mai dim ond boes oedd ganddo fel swyddfa. Nid oedd ganddo swyddfa Gweinidog go iawn. Yr oedd yn gwylltio Alun Michael a'r swyddogion drwy gynnal cyfarfodydd, ond yn ddieithriad byddai ei ystafell yn rhy fach i ddal yr holl bobl a oedd yn bresennol, a byddai hynny'n golygu bod pobl eraill yn gorfod gadael. Ni fyddai ganddo byth ddigon o gadeiriau yno, felly byddai ef, y Gweinidog, yn mynd o amgylch swyddfeydd eraill yn bersonol i ofyn am gael benthyg cadeiriau. Un diwrnod daeth i gyfarfod gyda chadair gynfas am nad oedd digon o gadeiriau. Mae'n dda gennyf ddweud bod gan y Gweinidogion swyddfeydd boddhaol yma bellach, a byddai Peter wedi bod yn arbennig o falch o hynny.

Ni chawn fyth Mr Blaenau Gwent arall. Yr wyf yn siŵr na fydd tad, tad-cu na gŵr arall tebyg i Peter. Estynnaf fy nghydymdeimlad dwysaf i Trish, a gobeithiaf fod ganddynt atgofion mor felys fel na fydd ei golli'n ormod o faich i'w ddiodef.

Denise Idris Jones: Thank you, Presiding Officer, for allowing me to say a few words this afternoon.

Hoffwn dalu fy nheyrnged i Peter a chynnig fy nghydymdeimlad i'w wraig a'i deulu. Deuthum i adnabod Peter am gyfnod byr gan fod gennym ein dau gysylltiad ag Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu. Gwn pa mor uchel ei barch yr oedd ymhlith ei aelodau fel gwleidydd, a hoffwn gyfleu eu parch a'u cydymdeimlad hwy.

Leighton Andrews: Hoffwn ddweud ychydig eiriau am gyfraniad Peter Law i sicrhau bodolaeth y Cynulliad. Yn 1997, pan oedd yr ymgyrch 'Ie dros Gymru' yn dechrau datblygu o ddifrif, un o'n gwrthwynebwyr amlycaf oedd yr Aelod Seneddol dros Flaenau Gwent. Fodd bynnag, yr oedd criw o bobl ym Mlaenau Gwent a oedd yn credu yn y ddadl o blaid ddatganoli. Pan gynhaliodd yr ymgyrch 'Ie dros Gymru' ei chynhadledd ym mis Gorffennaf 1997, cafodd nifer o'r bobl a siaradodd fonllfau o gymeradwyaeth. Arweinydd yr ymgyrch 'Ie' ym Mlaenau Gwent, wrth gwrs, oedd Peter Law, ac yn

that campaign.

I recall that the 'yes' vote in Blaenau Gwent was greeted almost as enthusiastically as that final Carmarthen result in the 'Yes' campaign party in the Park Hotel in the early hours of 19 September 1997. After the referendum was won, I recall Peter at a later 'Yes for Wales' event paying tribute to those whom he called the 15 'devo-warriors', who had helped to deliver the 'yes' vote in Blaenau Gwent—it is not often in politics that you can say that you have made a difference. With a majority of 6,721 votes in the referendum, every vote counted, so those 15,000 plus votes in Blaenau Gwent and a majority 'yes' vote of just over 3,000 counted just as much as the votes in other parts of the country. Peter led that campaign and it made a difference. I pay tribute to his work in that, just as I recall his warm words of encouragement to me when I became a candidate for the Assembly.

Finally, I echo the words of others: our thoughts now must be with his family.

Jeff Cuthbert: Like Carwyn Jones, I first met Peter Law when I was trying for the party nomination for the Brecon and Radnor constituency. We were unsuccessful, but nevertheless I remember meeting Peter and talking to him, and, apart from Blaenau Gwent, he was also interested in the constituency in which I lived. I found that he knew many of the councillors, he knew the area and he took an interest in south-east Wales generally. I will remember that first meeting for a long time.

I met him after that at many party conferences and trade union events. He was an active trade unionist as well as a politician. The Labour and trade union movement was very much at his heart.

Peter and I were of the same age; we were both born in 1948. We both joined the party in the mid 1960s, and therefore we grew up,

ystod yr ymgyrch honno y cyfarfûm ag ef am y tro cyntaf.

Cofiaf i'r bleidlais 'ie' ym Mlaenau Gwent dderbyn croeso bron yr un mor frwd â'r canlyniad olaf o Gaerfyrddin ym mharti'r ymgyrch 'Ie' yn y Park Hotel yn oriau mân y bore ar 19 Medi 1997. Ar ôl ennill y refferendwm, cofiaf Peter mewn digwyddiad diweddarach a gynhaliwyd gan yr ymgyrch 'Ie dros Gymru' yn talu teyrnged i'r rhai a ddisgrifiodd fel y 15 'devo-warrior', a oedd wedi gweithio i sicrhau'r bleidlais 'Ie' ym Mlaenau Gwent—nid yn aml ym myd gwleidyddiaeth y gallwch ddweud eich bod wedi gwneud gwahaniaeth. Gyda mwyafrif o 6,721 o bleidleisiau yn y refferendwm, yr oedd pob pleidlais yn cyfrif, felly yr oedd y 15,000 a mwy o bleidleisiau ym Mlaenau Gwent a mwyafrif o fymryn dros 3,000 o blaid yn cyfrif llawn cymaint â'r pleidleisiau mewn rhannau eraill o'r wlad. Arweiniodd Peter yr ymgyrch honno a gwnaeth wahaniaeth. Talaf deyrnged i'w waith yn yr ymgyrch honno, yn yr un modd ag y cofiaf ei eiriau hynaws o anogaeth i mi pan ddeuthum yn ymgeisydd ar gyfer sedd yn y Cynulliad.

Yn olaf, yr wyf yn adleisio geiriau pobl eraill: mae ein meddyliau yn awr gyda'i deulu.

Jeff Cuthbert: Fel Carwyn Jones, cyfarfûm â Peter Law am y tro cyntaf pan oeddwn yn ceisio cael enwebiad y blaid ar gyfer etholaeth Brycheiniog a Maesyfed. Buom yn aflwyddiannus, ond er hynny cofiaf gwrdd â Peter a sgwrsio gydag ef, a, heblaw Blaenau Gwent, yr oedd ganddo ddiddordeb hefyd yn yr etholaeth yr oeddwn i'n byw ynddi. Sylweddolais ei fod yn adnabod llawer o'r cynghorwyr, yr oedd yn gyfarwydd â'r ardal ac yr oedd yn ymddiddori yn ne-ddwyrain Cymru'n gyffredinol. Byddaf yn cofio am y cyfarfyddiad cyntaf hwnnw am amser hir.

Cyfarfûm ag ef lawer o weithiau wedi hynny yng nghynadleddau'r blaid a digwyddiadau undebau llafur. Yr oedd hefyd yn undebwr llafur gweithgar yn ogystal ag yn wleidydd. Yr oedd y mudiad Llafur ac undebaeth lafur yn agos iawn at ei galon.

Yr oedd Peter a minnau yr un oed; cawsom ein dau ein geni yn 1948. Ymunasom ein dau â'r blaid yng nghanol y 1960au, ac felly,

in many respects, in the same political environment. I remember—as I am sure Peter did—the events in Czechoslovakia and France in 1968 and the Vietnam war. Those were defining times for young people as they began to become aware of political events throughout the world. It began to shape the way in which they saw themselves within the world.

Then, in the early 1980s, there was the miners' strike, which hit so bitterly in my constituency and in Blaenau Gwent. In these areas, Peter and I worked separately, but together, to ensure that benefit was brought to the miners and that there was some relief for them in the terrible ordeal that they were going through. These were very important historic events for socialists.

I disagree with the political decisions that Peter took a year ago, but my memory goes back much further than that, over many, many years.

I believe that when we build bridges, we will remember Peter as a man of the people. I will remember him with friendship and fondness.

Mark Isherwood: I always remember that when I arrived at the Assembly three years ago and met many of you for the first time, Peter, in his own special way, made sure that I—like all the other new Members—felt welcome and that we were being judged as individuals and as people rather than according to whatever preconceptions people may have had about us politically. As we have heard, he was always generous with his time, advice, support and in buying a bottle of wine—I think probably all of us have benefited from that at one stage or another.

When Peter attacked you in a Chamber debate, it was always a privilege because he did it with such dignity and aplomb, and—as we have heard—with a twinkle in the eye. As we came to learn over the past year, he was also a formidable ally when he was debating on your side, but always, as we have heard, on the basis of what was good for the people

mewn sawl ffordd, magwyd y ddau ohonom yn yr un amgylchedd gwleidyddol. Cofiaf—fel yr wyf yn siŵr y cofiai Peter—y digwyddiadau yn Nhsiecoslofacia a Ffrainc yn 1968 a rhyfel Fietnam. Yr oedd y cyfnod hwn yn gyfnod diffiniol i bobl ifanc wrth iddynt ddechrau dod yn ymwybodol o ddigwyddiadau gwleidyddol ledled y byd. Yr oedd yn dechrau llunio'r ffordd yr oeddent yn gweld eu hunain yn y byd.

Yna, ar ddechrau'r 1980au, cafwyd streic y glowyr, a fu'n ergyd mor chwerw yn fy etholaeth ac ym Mlaenau Gwent. Yn yr ardaloedd hyn bu Peter a minnau'n gweithio ar wahân, ond gyda'n gilydd, i sicrhau y câr glowyr fudd a bod rhywfaint o gymorth ar gael iddynt yn ystod y cyfnod erchyll hwn. Yr oedd y rhain yn ddigwyddiadau hanesyddol o bwys mawr i sosialwyr.

Yr wyf yn anghytuno â'r penderfyniadau gwleidyddol a wnaeth Peter flwyddyn yn ôl, ond mae fy nghof yn mynd yn ôl ymhellach o lawer na hynny, dros lawer iawn o flynyddoedd.

Wrth inni godi pontydd, credaf y byddwn yn cofio am Peter fel dyn y bobl. Byddaf yn ei gofio gyda chyfeillgarwch ac anwyldeb.

Mark Isherwood: Nid anghofiaf fyth y tro cyntaf imi gyrraedd y Cynulliad dair blynedd yn ôl a chwrdd â nifer ohonoch am y tro cyntaf, pan aeth Peter ati, yn ei ffordd ddihafal ei hun, i wneud yn siŵr fy mod i—ynghyd â'r holl Aelodau newydd eraill—yn cael croeso cynnes a'n bod yn cael ein barnu fel unigolion ac fel pobl ac nid yn ôl pa ragdybiaethau bynnag a oedd gan bobl amdanom yn wleidyddol. Fel yr ydym eisoes wedi clywed, yr oedd bob amser yn hael gyda'i amser, ei gyngor a'i gefnogaeth ac wrth brynu potelaid o win—credaf fod pob un ohonom, yn ôl pob tebyg, wedi elwa o hynny ar ryw achlysur neu'i gilydd.

Pan ymosodai Peter arnoch mewn dadl yn y Siambr, yr oedd hynny bob amser yn fraint gan ei fod yn gwneud hynny gyda chymaint o urddas a hunanfeddiant, ac—fel yr ydym eisoes wedi clywed—â'i lygaid yn pefrio. Yr oeddem wedi dysgu dros y flwyddyn ddiwethaf ei fod hefyd yn gaffaeliad ardderchog pan ddadleuai o'ch plaid, ond bob

of Blaenau Gwent rather than what was good for any particular political party or agenda.

In January 2006, I went to the House of Commons on a working visit and bumped into Peter in the lobby before my meeting. He immediately welcomed me with open arms and asked me whether I would meet him in the Strangers' bar for a drink afterwards. I explained my timescale, not thinking that he, as a busy politician with a double responsibility as a Member of Parliament and Assembly Member, could spare time for me. However, when I came out of my meeting at the time that I told him, he was there waiting for me and took me to the Strangers' bar and gave me half an hour of his time. It was only at the end that he told me that other people were waiting to see him. Again, that was the sum of the man—he found the time to greet a fellow Assembly Member and to treat him with friendship and fellowship when he found him in his other place of work.

We have heard many references to his dignified attendance at Anne Marek's funeral. When I saw him standing behind me and turned around and said to him, 'Peter, it is Mark', he insisted that everyone around him, including Trish, were introduced to me. I noticed then and subsequently throughout the day that he spoke continuously in praise of other people, and not once did he mention himself or any of his own problems or issues. That was the true sum of the man. That was my last memory of him. Peter, it was a privilege to have known you.

Y Llywydd: Ar ran y Cynulliad, yr wyf yn diolch i chi i gyd, fel Aelodau, am y cyfraniadau nodedig.

I'r rhai ohonom sydd yma ers y dechrau, a chyn y dechrau fel petai, yn achos Peter, yr ydym wedi colli Aelod nodedig o'r teulu—teulu datganoli a theulu'r Cynulliad.

Deuthum i adnabod Peter pan oedd yn un o arweinyddion llywodraeth leol a gwyddwn yr adeg honno—os caf ddweud hyn heb darfu ar unrhyw un—nad oedd ym mowld cynghorydd confensiynol o unrhyw blaid

amser, fel yr ydym wedi clywed, ar sail yr hyn a oedd o fudd i bobl Blaenau Gwent yn hytrach na budd unrhyw blaid neu agenda wleidyddol.

Ym mis Ionawr 1996 euthum i Dŷ'r Cyffredin ar ymweliad gwaith a digwyddais daro ar Peter yn y cyntedd cyn fy nghyfarfod. Yn ddiymdroi fe'm croesawodd â'i freichiau ar led a gofynnodd imi a fyddwn yn cwrdd ag ef ym mar y Dieithriaid am ddiwedd wedyn. Esboniais fy amserlen wrtho, heb feddwl y gallai ef, gwleidydd prysur gyda chyfrifoldeb deublyg fel Aelod Seneddol ac Aelod Cynulliad, roi o'i amser i mi. Fodd bynnag, pan adewais fy nghyfarfod yn ôl ein trefniant, yr oedd yno yn disgwyl amdanaf. Aeth â mi i far y Dieithriaid a rhoddodd hanner awr o'i amser imi. Dim ond ar ddiwedd y cyfnod hwnnw y dywedodd wrthyf fod pobl eraill yn disgwyl i'w weld. Unwaith eto, dyna hanfod y dyn—yr oedd ganddo amser i gyfarch cyd-Aelod Cynulliad a'i drin â charedigrwydd a chyfeillgarwch pan ddigwyddodd daro arno yn ei fan gwaith arall.

Mae sawl un wedi cyfeirio at ei bresenoldeb urddasol yn angladd Anne Marek. Pan welais ef yn sefyll y tu ôl imi a throï a dweud wrtho, 'Peter, Mark sydd yma', mynnodd fod pawb o'i gylch, gan gynnwys Trish, yn cael eu cyflwyno imi. Sylwais bryd hynny ac wedyn drwy gydol y dydd ei fod yn clodfori pobl eraill yn ddi-baid, ac na soniodd unwaith amdano ef ei hun na dim un o'r problemau na'r materion a oedd yn effeithio arno ef. Dyna hanfod y dyn. Dyna fy atgof olaf amdano. Peter, bu eich adnabod yn fraint.

The Presiding Officer: On behalf of the Assembly, I thank you all, as Members, for your notable contributions.

For those of us who have been here from the start, and even before then, as it were, in Peter's case, we have lost a significant Member of the family—the family of devolution and of this Assembly.

I came to know Peter when he was one of the leaders of local government and I knew then—if I can say so without treading on anyone's toes—that he was not cast in the conventional mould of councillors of any

wleidyddol yng Nghymru.

Yr oedd ganddo ymlyniad arbennig i'r syniad o undod y genedl. Yr oedd hyn yn beth anarferol hefyd efallai, yn enwedig yn y dyddiau hynny. Daeth hynny'n amlwg yn y cyfnod pan oedd yn aelod o'r bwrdd iaith cyntaf, cyn sefydlu'r bwrdd iaith statudol. Cefais y fraint o rannu aelodaeth gydag ef am gyfnod byr yr adeg hynny.

2.50 p.m.

Mae gennyf atgofion da hefyd am ei ymweliadau ag ardal Meirionnydd a gogledd Cymru pan oedd yn gweithio fel ymgynghorydd i Dŵr Cymru. Yr oedd yn hoff iawn o dreulio amser yng nghwmni pysgotwyr—ni chredaf ei fod yn pysgota llawer—a'r cymunedau lleol, gwerinol yn yr ardaloedd hynny.

Fel y clywyd eisoes, yr ydym hefyd yn coffâu rhywun a fu'n Weinidog llwyddiannus, er ond am gyfnod byr. Nid anghofiaf byth ef yn dod i agor yr A494 yn Nrws-y-nant yn ffurfiol ac yn swyddogol. Bydd rhai ohonoch yn gwybod am y lleoliad hwnnw. Dyna lle yr oedd y goleuadau traffig hwyaf eu parhad yn holl hanes y deyrnas hon. Cefais y fraint o gynrychioli'r goleuadau hynny heb allu eu symud am gyfnod hir. Dyma Peter, yn ei ffordd ddihafal eu hun, yn annerch disgyblion ysgol Rhyd-y-main gan ddweud, 'Oni bai am ddatganoli, ni fyddai'r ffordd hon wedi cael ei hagor'.

Dyna'r math o gymeriad oedd. Mae atgofion da amdano. Rhown ein dymuniadau gorau i Trish a'r teulu. Yr wyf yn siŵr y cawn gyfle i wneud hynny'n bersonol yn nes ymlaen yr wythnos hon. Gofynnaf ichi oll fel Aelodau i sefyll er coffâd am un o'n sylfaenwyr, Peter Law.

*Safodd Aelodau'r Cynulliad am funud o dawelwch.
Assembly Members stood for a minute's silence.*

Cynnig Trefniadol Procedural Motion

The Business Minister (Jane Hutt): First, I also wish to add my respects to this

political party in Wales.

He had a particular commitment to the idea of national unity. This was also quite unusual perhaps, particularly in those days. That became obvious during the period when he was a member of the first language board, before the statutory language board was established. I had the honour of sharing membership with him for a short period at that time.

I have fond memories also of his visits to Meirionnydd and north Wales when he worked as a consultant for Welsh Water. He was very fond of spending time in the company of anglers—I do not believe that he spent much time fishing—and the local rural communities in those areas.

As has been mentioned, we are also remembering someone who was a successful Minister, if only for a short time. I will never forget him opening the A494 at Drws-y-nant officially and formally. Some of you will know of that place. It was the location of the longest-standing traffic lights in the whole history of this kingdom. I had had the privilege of representing those lights without being able to move them for a long time. Peter, in his own inimitable way, addressed the pupils of Rhyd-y-main school by saying, 'If it were not for devolution, this road would not have been opened'.

That was the kind of character that he was. There are fond memories of him. We extend our best wishes to Trish and the family. I am sure that we will have an opportunity to do so personally later on this week. I ask you all as Members to stand in memory of one of our founder members, Peter Law.

Y Trefnydd (Jane Hutt): Yn gyntaf oll, carwn innau hefyd dalu teyrnged i'r gŵr

remarkable and courageous man and extend my sympathies to Trish Law and the family. nodedig a gwrol hwn ac anfon fy nghydymdeimlad at Trish Law a'r teulu.

I propose that

Cynigiaf fod

the National Assembly for Wales, under Standing Order No. 6.19, postpones the following items of this afternoon's business until tomorrow afternoon:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 6.19, yn gohirio'r eitemau canlynol o fusnes heddiw tan brynhawn yfory:

First Minister's questions, the business statement, and the motions to approve under Standing Order No. 24.25 the Education (School Day and School Year) (Wales) (Amendment) Regulations 2006 and the Plant Breeders' Rights (Discontinuation of Prior Use Exemption) (Wales) Order 2006; and

cwestiynau i'r Prif Weinidog, y datganiad busnes, a'r cynigion i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog Rhif 24.25 Reoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2006 a Gorchymyn Hawliau Bridwyr Planhigion (Dirwyn i Ben Esemptiad o Ddefnydd Blaenorol) (Cymru) 2006; ac

agrees that the remaining items scheduled for this afternoon be rescheduled over the next three weeks as shown in the business statement to be proposed tomorrow.

yn cytuno bod yr eitemau sy'n weddill a drefnwyd ar gyfer heddiw yn cael eu haildrefnu dros y tair wythnos nesaf fel y dangosir yn y datganiad busnes i'w gynnig yfory.

Cynnig: O blaid 51, Ymatal 0, Yn erbyn 0.

Motion: For 51, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Dunwoody, Tamsin
Essex, Sue
Francis, Lisa
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
Isherwood, Mark
James, Irene
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn

Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Jones, Laura Anne
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Marek, John
Melding, David
Mewies, Sandy
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Catherine
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion carried.*

Y Llywydd: Dyna ddiwedd ein trafodion **The Presiding Officer:** That brings today's
heddiw. proceedings to a close.

*Daeth y cyfarfod i ben am 2.54 p.m.
The meeting ended at 2.54 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau
Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)
Bates, Mick (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davidson, Jane (Llafur – Labour)
Davies, Andrew (Llafur – Labour)
Davies, David (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Davies, Glyn (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Davies, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Dunwoody, Tamsin (Llafur - Labour)
Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Essex, Sue (Llafur – Labour)
Francis, Lisa (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)
Gibbons, Brian (Llafur – Labour)
Gwyther, Christine (Llafur – Labour)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Idris Jones, Denise (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
James, Irene (Llafur – Labour)

Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Laura Anne (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)
Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lloyd, Val (Llafur – Labour)
Marek, John (Cymru Ymlaen – Forward Wales)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Pugh, Alun (Llafur – Labour)
Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Sinclair, Karen (Llafur – Labour)
Thomas, Catherine (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Owen John (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)